



OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU

WELSH STATUTORY  
INSTRUMENTS

**2021 Rhif 915 (Cy. 208)**

**2021 No. 915 (W. 208)**

**IECHYD Y CYHOEDD,  
CYMRU**

**PUBLIC HEALTH, WALES**

Rheoliadau Diogelu Iechyd  
(Coronafeirws, Teithio  
Rhyngwladol ac Atebolrwydd  
Gweithredwyr) (Cymru)  
(Diwygiadau Amrywiol) (Rhif 3)  
2021

The Health Protection  
(Coronavirus, International Travel  
and Operator Liability) (Wales)  
(Miscellaneous Amendments) (No.  
3) Regulations 2021

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/574 (Cy. 132)) (y "Rheoliadau Teithio Rhyngwladol") a Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol, Profion cyn Ymadael ac Atebolrwydd Gweithredwyr) (Cymru) (Diwygio) 2021 (O.S. 2021/48 (Cy. 11)) (y "Rheoliadau Atebolrwydd Gweithredwyr").

Mae'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn gosod gofynion ar bersonau sy'n dod i Gymru ar ôl bod dramor. Maent yn cynnwys gofyniad i bersonau sy'n cyrraedd Cymru o wledydd neu diriogaethau nad ydynt yn esempt ynysu am gyfnod sydd i'w bennu yn unol â'r Rheoliadau hynny.

Mae rheoliad 3 yn diwygio rheoliad 2A o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol er mwyn cyflwyno esemptiadau ar gyfer teithwyr penodol, yn bennaf y rheini sydd wedi cael cwrs llawn o frechlyn awdurdodedig mewn gwlad berthnasol, neu sydd o dan 18 oed ac yn preswyl fel arfer mewn gwlad berthnasol. Mae'r teithwyr hynny wedi eu hesemptio rhag gorfod ynysu ar ôl dychwelyd o wlad neu diriogaeth nad yw'n esempt (ac eithrio un a bennir yn Atodlen 3A i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol), ac nid oes ond gofyniad iddynt gymryd prawf diwrnod 2. Mae'r esemptiadau hyn yn gymwys felly mewn perthynas â theithwyr perthnasol sy'n cyrraedd o'r hyn a elwir yn gyffredin y gwledydd 'rhestr oren'.

**EXPLANATORY NOTE**

*(This note is not part of the Regulations)*

These Regulations amend the Health Protection (Coronavirus, International Travel) (Wales) Regulations 2020 (S.I. 2020/574 (W. 132)) (the "International Travel Regulations") and the Health Protection (Coronavirus, International Travel, Pre-Departure Testing and Operator Liability) (Wales) (Amendment) Regulations 2021 (S.I. 2021/48 (W. 11)) (the "Operator Liability Regulations").

The International Travel Regulations impose requirements on persons entering Wales after having been abroad. They include a requirement for persons arriving in Wales from non-exempt countries or territories to isolate for a period determined in accordance with those Regulations.

Regulation 3 amends regulation 2A of the International Travel Regulations to introduce exemptions for certain travellers, primarily those who have received a full course of an authorised vaccine in, or who are under 18 and ordinarily resident in, a relevant country. Such travellers are exempted from the requirement to isolate on return from a non-exempt country or territory (except one specified in Schedule 3A to the International Travel Regulations), and are only required to take a day 2 test. These exemptions therefore apply in relation to relevant arrivals from what are commonly known as the 'amber list' countries.

Mae'r Rheoliadau Atebolrwydd Gweithredwyr yn gosod gofynion ar bersonau sy'n gweithredu gwasanaethau teithwyr rhyngwladol ("gweithredwyr") sy'n cyrraedd Cymru o'r tu allan i'r ardal deithio gyffredin. Yn unol â'r gofynion hynny rhaid i weithredwyr, er enghraifft, sicrhau bod teithwyr sy'n teithio ar y gwasanaethau hynny yn meddu ar hysbysiad o ganlyniad prawf negyddol a'u bod wedi gwneud trefniadau i gymryd profion pellach ar ôl iddynt gyrraedd.

Mae rheoliadau 4 i 9 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r Rheoliadau Atebolrwydd Gweithredwyr er mwyn gosod dyletswyddau ar weithredwyr gwasanaethau teithwyr rhyngwladol i wirio, (i) bod person sydd wedi datgan ei fod yn deithiwr cymwys sydd wedi ei frechu o fewn ystyr rheoliad 2A o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn meddu ar y dystiolaeth sy'n ofynnol i ategu'r datganiad hwnnw; a (ii) bod teithwyr sy'n ceisio dibynnu ar esemptiad yn Atodlen 2 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn meddu ar dystiolaeth eu bod yn gymwys ar gyfer yr esemptiad.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

The Operator Liability Regulations impose requirements on persons operating international passenger services ("operators") arriving into Wales from outside the common travel area. In accordance with those requirements operators must, for example, ensure that passengers travelling on such services possess notification of a negative test result and have made arrangements to take further tests following their arrival.

Regulations 4 to 9 of these Regulations amend the Operator Liability Regulations to place duties on operators of international passenger services to check, (i) that a person who has declared that they are an eligible vaccinated arrival within the meaning of regulation 2A of the International Travel Regulations has the evidence required to support that declaration; and (ii) that passengers seeking to rely on an exemption in Schedule 2 to the International Travel Regulations possess evidence that they are eligible for the exemption.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, a regulatory impact assessment has not been prepared as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations.

**2021 Rhif 915 (Cy. 208)**

**2021 No. 915 (W. 208)**

**IECHYD Y CYHOEDD,  
CYMRU**

**PUBLIC HEALTH, WALES**

Rheoliadau Diogelu Iechyd  
(Coronafeirws, Teithio  
Rhyngwladol ac Atebolrwydd  
Gweithredwyr) (Cymru)  
(Diwygiadau Amrywiol) (Rhif 3)  
2021

The Health Protection  
(Coronavirus, International Travel  
and Operator Liability) (Wales)  
(Miscellaneous Amendments) (No.  
3) Regulations 2021

*Gwnaed am 1.38 p.m. ar 30 Gorffennaf 2021*

*Made at 1.38 p.m. on 30 July 2021*

*Gosodwyd gerbron Senedd  
Cymru am 6.00 p.m. ar 30 Gorffennaf 2021*

*Laid before Senedd  
Cymru at 6.00 p.m. on 30 July 2021*

*Yn dod i rym am 4.00 a.m. ar 2 Awst 2021*

*Coming into force at 4.00 a.m. on 2 August  
2021*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 45B, 45F(2) a 45P(2) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984(1), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred on them by sections 45B, 45F(2) and 45P(2) of the Public Health (Control of Disease) Act 1984(1), make the following Regulations.

**Enwi a dod i rym**

**Title and coming into force**

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol ac Atebolrwydd Gweithredwyr) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Rhif 3) 2021.

1.—(1) The title of these Regulations is the Health Protection (Coronavirus, International Travel and Operator Liability) (Wales) (Miscellaneous Amendments) (No. 3) Regulations 2021.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym am 4.00 a.m. ar 2 Awst 2021.

(2) These Regulations come into force at 4.00 a.m. on 2 August 2021.

(1) 1984 p. 22. Mewnosodwyd Rhan 2A gan adran 129 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (p. 14). Mae'r swyddogaeth o wneud rheoliadau o dan Ran 2A wedi ei rhoi i "the appropriate Minister". O dan adran 45T(6) o Ddeddf 1984 y Gweinidog priodol, o ran Cymru, yw Gweinidogion Cymru.

(1) 1984 c. 22. Part 2A was inserted by section 129 of the Health and Social Care Act 2008 (c. 14). The function of making regulations under Part 2A is conferred on "the appropriate Minister". Under section 45T(6) of the 1984 Act the appropriate Minister as respects Wales, is the Welsh Ministers.

## Diwygiadau i Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020

2. Mae Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020(1) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

### Diwygiadau i reoliad 2A

3.—(1) Mae rheoliad 2A (esemptiadau ar gyfer teithwyr sydd wedi eu brechu ac eraill) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff (3)—

- (a) yn is-baragraff (b), ar ôl “Deyrnas Unedig” mewnosoder “neu mewn gwlad berthnasol”;
- (b) ar ôl is-baragraff (b) mewnosoder—

“(ba) os cafwyd y cwrs o ddosau yn Unol Daleithiau America, mae’n preswyllo fel arfer yn Unol Daleithiau America.”;

(c) yn is-baragraff (c)—

- (i) ar ôl “swyddog mewnfudo” mewnosoder “neu weithredwr gwasanaeth masnachol y mae P yn teithio i Gymru arno o’r tu allan i’r ardal deithio gyffredin”;
- (ii) yn lle “drwy bàs COVID y GIG” hyd at y diwedd rhodder—

“drwy—

- (i) pàs COVID y GIG, neu bàs cyfatebol oddi wrth GIG yr Alban, GIG Cymru neu’r Adran Iechyd yng Ngogledd Iwerddon,
- (ii) tystysgrif COVID Ddigidol yr UE, neu
- (iii) cerdyn brechu’r Canolfannau Rheoli ac Atal Clefydau.”;

## Amendments to the Health Protection (Coronavirus, International Travel) (Wales) Regulations 2020

2. The Health Protection (Coronavirus, International Travel) (Wales) Regulations 2020(1) are amended as follows.

### Amendments to regulation 2A

3.—(1) Regulation 2A (exemptions for vaccinated travellers and others) is amended as follows.

(2) In paragraph (3)—

- (a) in sub-paragraph (b), after “United Kingdom” insert “or a relevant country”;
- (b) after sub-paragraph (b) insert—

“(ba) if the course of doses was received in the United States of America, is ordinarily resident in the United States of America.”;

(c) in sub-paragraph (c)—

- (i) after “immigration officer” insert “or the operator of a commercial service on which P travels to Wales from outside the common travel area”;
- (ii) for “through the NHS COVID pass” to the end substitute—

“through—

- (i) the NHS COVID pass, or equivalent from NHS Scotland, NHS Wales or the Department of Health in Northern Ireland,
- (ii) the EU Digital COVID certificate, or
- (iii) the Centers for Disease Control and Prevention vaccination card.”;

---

(1) O.S. 2020/574 (Cy. 132), a ddiwygiwyd gan O.S. 2020/595 (Cy. 136), O.S. 2020/714 (Cy. 160), O.S. 2020/726 (Cy. 163), O.S. 2020/804 (Cy. 177), O.S. 2020/817 (Cy. 179), O.S. 2020/840 (Cy. 185), O.S. 2020/868 (Cy. 190), O.S. 2020/886 (Cy. 196), O.S. 2020/917 (Cy. 205), O.S. 2020/942, O.S. 2020/944 (Cy. 210), O.S. 2020/962 (Cy. 216), O.S. 2020/981 (Cy. 220), O.S. 2020/1015 (Cy. 226), O.S. 2020/1042 (Cy. 231), O.S. 2020/1080 (Cy. 243), O.S. 2020/1098 (Cy. 249), O.S. 2020/1133 (Cy. 258), O.S. 2020/1165 (Cy. 263), O.S. 2020/1191 (Cy. 269), O.S. 2020/1223 (Cy. 277), O.S. 2020/1232 (Cy. 278), O.S. 2020/1237 (Cy. 279), O.S. 2020/1288 (Cy. 286), O.S. 2020/1329 (Cy. 295), O.S. 2020/1362 (Cy. 301), O.S. 2020/1477 (Cy. 316), O.S. 2020/1521 (Cy. 325), O.S. 2020/1602 (Cy. 332), O.S. 2020/1645 (Cy. 345), O.S. 2021/20 (Cy. 7), O.S. 2021/24 (Cy. 8), O.S. 2021/46 (Cy. 10), O.S. 2021/48 (Cy. 11), O.S. 2021/50 (Cy. 12), O.S. 2021/66 (Cy. 15), O.S. 2021/72 (Cy. 18), O.S. 2021/95 (Cy. 26), O.S. 2021/154 (Cy. 38), O.S. 2021/305 (Cy. 78), O.S. 2021/361 (Cy. 110), O.S. 2021/454 (Cy. 144), O.S. 2021/500 (Cy. 149), O.S. 2021/568 (Cy. 156), O.S. 2021/584 (Cy. 161), O.S. 2021/646 (Cy. 166), O.S. 2021/669 (Cy. 170), O.S. 2021/765 (Cy. 187), O.S. 2021/826 (Cy. 193) ac O.S. 2021/867 (Cy. 203).

---

(1) S.I. 2020/574 (W. 132), amended by S.I. 2020/595 (W. 136), S.I. 2020/714 (W. 160), S.I. 2020/726 (W. 163), S.I. 2020/804 (W. 177), S.I. 2020/817 (W. 179), S.I. 2020/840 (W. 185), S.I. 2020/868 (W. 190), S.I. 2020/886 (W. 196), S.I. 2020/917 (W. 205), S.I. 2020/942, S.I. 2020/944 (W. 210), S.I. 2020/962 (W. 216), S.I. 2020/981 (W. 220), S.I. 2020/1015 (W. 226), S.I. 2020/1042 (W. 231), S.I. 2020/1080 (W. 243), S.I. 2020/1098 (W. 249), S.I. 2020/1133 (W. 258), S.I. 2020/1165 (W. 263), S.I. 2020/1191 (W. 269), S.I. 2020/1223 (W. 277), S.I. 2020/1232 (W. 278), S.I. 2020/1237 (W. 279), S.I. 2020/1288 (W. 286), S.I. 2020/1329 (W. 295), S.I. 2020/1362 (W. 301), S.I. 2020/1477 (W. 316), S.I. 2020/1521 (W. 325), S.I. 2020/1602 (W. 332), S.I. 2020/1645 (W. 345), S.I. 2021/20 (W. 7), S.I. 2021/24 (W. 8), S.I. 2021/46 (W. 10), S.I. 2021/48 (W. 11), S.I. 2021/50 (W. 12), S.I. 2021/66 (W. 15), S.I. 2021/72 (W. 18), S.I. 2021/95 (W. 26), S.I. 2021/154 (W. 38), S.I. 2021/305 (W. 78), S.I. 2021/361 (W. 110), S.I. 2021/454 (W. 144), S.I. 2021/500 (W. 149), S.I. 2021/568 (W. 156), S.I. 2021/584 (W. 161), S.I. 2021/646 (W. 166), S.I. 2021/669 (W. 170), S.I. 2021/765 (W. 187), S.I. 2021/826 (W. 193) and S.I. 2021/867 (W. 203).

(d) ar ôl is-baragraff (c), mewnosoder—

“(ca) mae’n gallu darparu prawf os yw hynny’n ofynnol gan swyddog mewnfudo neu weithredwr gwasanaeth masnachol y mae P yn teithio arno i Gymru o’r tu allan i’r ardal deithio gyffredin ei fod yn bodloni’r gofyniad yn is-baragraff (ba), a”.

(3) Ym mharagraff (4)(b), ar ôl “cymryd rhan hwnnw” mewnosoder “os yw hynny’n ofynnol gan swyddog mewnfudo neu weithredwr gwasanaeth masnachol y mae P yn teithio arno i Gymru o’r tu allan i’r ardal deithio gyffredin”.

(4) Ar ôl paragraff (4) mewnosoder—

“(4A) Mae P—

- (a) wedi cymryd rhan, neu yn cymryd rhan mewn treial clinigol yn Unol Daleithiau America gan y Weinyddiaeth Bwyd a Chyffuriau ar gyfer brechlyn i frechu yn erbyn y coronafeirws;
- (b) yn gallu darparu prawf o’r cymryd rhan hwnnw drwy gerdyn brechu’r Canolfannau Rheoli ac Atal Clefydau os yw hynny’n ofynnol gan swyddog mewnfudo neu weithredwr gwasanaeth masnachol y mae P yn teithio arno i Gymru o’r tu allan i’r ardal deithio gyffredin;
- (c) wedi datgan bod P yn bodloni’r meini prawf cymhwysedd o ran brechu yn erbyn COVID-19 ar gyfer llai o ofynion ynysu a phrofi gan ddefnyddio cyfleuster y cyfeirir ato yn rheoliad 4(1); a
- (d) yn preswyllo fel arfer yn Unol Daleithiau America ac yn gallu darparu prawf o’r preswyllo hwnnw os yw hynny’n ofynnol gan swyddog mewnfudo neu weithredwr gwasanaeth masnachol y mae P yn teithio arno i Gymru o’r tu allan i’r ardal deithio gyffredin.”.

(5) Ym mharagraff (5)(a), ar ôl “Deyrnas Unedig” mewnosoder “neu mewn gwlad berthnasol”.

(6) Ym mharagraff (10)—

(a) yn lle’r diffiniad o “brechlyn awdurdodedig” rhodder—

“ystyr “brechlyn awdurdodedig” (*“authorised vaccine”*) yw cynnyrch meddyginiaethol ar gyfer brechu yn erbyn y coronafeirws—

(d) after sub-paragraph (c), insert—

“(ca) is able to provide proof if required by an immigration officer or the operator of a commercial service on which P travels to Wales from outside the common travel area of meeting the requirement in sub-paragraph (ba), and”.

(3) In paragraph (4)(b), after “participation” insert “if required by an immigration officer or the operator of a commercial service on which P travels to Wales from outside the common travel area”.

(4) After paragraph (4) insert—

“(4A) P—

- (a) has participated or is participating in a clinical trial in the United States of America by the Food and Drugs Administration of a vaccine for vaccination against coronavirus;
- (b) is able to provide proof of such participation through the Centers for Disease Control and Prevention vaccination card if required by an immigration officer or the operator of a commercial service on which P travels to Wales from outside the common travel area;
- (c) has declared that P meets the COVID-19 vaccination eligibility criteria for reduced isolation and testing requirements using a facility referred to in regulation 4(1); and
- (d) is ordinarily resident in the United States of America and is able to provide proof of that residence if required by an immigration officer or the operator of a commercial service on which P travels to Wales from outside the common travel area.”.

(5) In paragraph (5)(a), after “United Kingdom” insert “or a relevant country”.

(6) In paragraph (10)—

(a) for the definition of “authorised vaccine” substitute—

““authorised vaccine” (*“brechlyn awdurdodedig”*) means a medicinal product for vaccination against coronavirus authorised—

- (a) mewn perthynas â dosau a geir yn y Deyrnas Unedig—
- (i) a awdurdodwyd i'w gyflenwi yn y Deyrnas Unedig yn unol ag awdurdodiad marchnata, neu
- (ii) a awdurdodwyd gan yr awdurdod trwyddedu ar sail dros dro o dan reoliad 174 o Reoliadau Meddyginiaethau Dynol 2012;
- (b) mewn perthynas â dosau a geir mewn gwlad berthnasol, a awdurdodwyd i'w gyflenwi yn y wlad honno yn dilyn gwerthusiad gan y rheoleiddiwr perthnasol ar gyfer y wlad;”;
- (b) yn lle'r diffiniad o “awdurdodiad marchnata” rhodder—
- “ystyr “awdurdodiad marchnata” (“*marketing authorisation*”)—
- (a) mewn perthynas â brechlyn a awdurdodwyd i'w gyflenwi yn y Deyrnas Unedig neu mewn Aelod-wladwriaeth, yw'r ystyr a roddir i “marketing authorisation” yn rheoliad 8(1) (dehongli cyffredinol) o Reoliadau Meddyginiaethau Dynol 2012;
- (b) mewn perthynas â brechlyn a awdurdodwyd i'w gyflenwi mewn gwlad berthnasol ac eithrio Aelod-wladwriaeth, yw awdurdodiad marchnata a roddwyd gan y rheoleiddiwr perthnasol ar gyfer y wlad;”;
- (c) yn y lleoedd priodol yn nhrefn yr wyddor mewnosoder—
- “ystyr “gwlad berthnasol” (“*relevant country*”) yw gwlad a restrir yng ngholofn gyntaf y tabl ym mharagraff (11);
- “ystyr “rheoleiddiwr perthnasol” (“*relevant regulator*”), mewn perthynas â gwlad berthnasol, yw'r rheoleiddiwr a nodir yn y rhes gyfatebol o ail golofn y tabl ym mharagraff (11), ac mae cyfeiriad at reoleiddiwr yn y tabl hwnnw yn gyfeiriad at yr awdurdod rheoleiddiol sy'n dwyn yr enw hwnnw a ddynodwyd yn Awdurdod Rheoleiddiol Llym gan Sefydliad Iechyd y Byd yn unol â gweithrediad Cyfleuster COVAX(1);”;
- (a) in relation to doses received in the United Kingdom—
- (i) for supply in the United Kingdom in accordance with a marketing authorisation, or
- (ii) by the licensing authority on a temporary basis under regulation 174 of the Human Medicines Regulations 2012;
- (b) in relation to doses received in a relevant country, for supply in that country following evaluation by the relevant regulator for the country;”;
- (b) for the definition of “marketing authorisation” substitute—
- ““marketing authorisation” (“*awdurdodiad marchnata*”)—
- (a) in relation to a vaccine authorised for supply in the United Kingdom or in a member State, has the meaning given in regulation 8(1) (general interpretation) of the Human Medicines Regulations 2012;
- (b) in relation to a vaccine authorised for supply in a relevant country other than a member State, means a marketing authorisation granted by the relevant regulator for the country;”;
- (c) after the definition of “NHS Wales” insert—
- ““relevant country” (“*gwlad berthnasol*”) means a country listed in the first column of the table in paragraph (11);
- “relevant regulator” (“*rheoleiddiwr perthnasol*”), in relation to a relevant country, means the regulator identified in the corresponding row of the second column of the table in paragraph (11), and a reference to a regulator in that table is a reference to the regulatory authority of that name designated as a Stringent Regulatory Authority by the World Health Organization pursuant to the operation of the COVAX Facility(1);”;

(1) Mae rhestr o'r awdurdodau rheoleiddiol cenedlaethol a ddynodwyd yn Awdurdodau Rheoleiddiol Llym wedi ei chyhoeddi gan Sefydliad Iechyd y Byd ac mae ar gael ar-lein ar [https://extranet.who.int/pqweb/sites/default/files/documents/Product-Eligibility\\_COVAX-Facility\\_Dec2020\\_0.pdf](https://extranet.who.int/pqweb/sites/default/files/documents/Product-Eligibility_COVAX-Facility_Dec2020_0.pdf)

(1) A list of the national regulatory authorities designated as Stringent Regulatory Authorities has been published by the World Health Organization and is available online at [https://extranet.who.int/pqweb/sites/default/files/documents/Product-Eligibility\\_COVAX-Facility\\_Dec2020\\_0.pdf](https://extranet.who.int/pqweb/sites/default/files/documents/Product-Eligibility_COVAX-Facility_Dec2020_0.pdf)

(d) ar ôl paragraff (10) mewnosoder—

“(11) Mae’r tabl y cyfeirir ato yn y diffiniadau o “gwlad berthnasol” a “rheoleiddiwr perthnasol” yn dilyn—

<i>Y wlad berthnasol</i>	<i>Y rheoleiddiwr perthnasol</i>
Aelod-wladwriaeth	Yr Asiantaeth Feddyginiaethau Ewropeaidd
Andorra	Yr Asiantaeth Feddyginiaethau Ewropeaidd
Gwlad yr Iâ	Yr Asiantaeth Feddyginiaethau Ewropeaidd
Gwladwriaeth Dinas y Fatican	Yr Asiantaeth Feddyginiaethau Ewropeaidd
Liechtenstein	Yr Asiantaeth Feddyginiaethau Ewropeaidd
Monaco	Yr Asiantaeth Feddyginiaethau Ewropeaidd
Norwy	Yr Asiantaeth Feddyginiaethau Ewropeaidd
San Marino	Yr Asiantaeth Feddyginiaethau Ewropeaidd
Y Swistir	Swissmedic
Unol Daleithiau America	Gweinyddiaeth Bwyd a Chyffuriau yr Unol Daleithiau

”.

#### **Diwygiadau i Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol, Profion cyn Ymadael ac Atebolrwydd Gweithredwyr) (Cymru) (Diwygio) 2021**

4. Mae Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol, Profion cyn Ymadael ac Atebolrwydd Gweithredwyr) (Cymru) (Diwygio) 2021(1) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(d) after paragraph (10) insert—

“(11) The table referred to in the definitions of “relevant country” and “relevant regulator” follows—

<i>Relevant country</i>	<i>Relevant regulator</i>
a member State	European Medicines Agency
Andorra	European Medicines Agency
Iceland	European Medicines Agency
Liechtenstein	European Medicines Agency
Monaco	European Medicines Agency
Norway	European Medicines Agency
San Marino	European Medicines Agency
Switzerland	Swissmedic
the United States of America	United States Food and Drug Administration
Vatican City State	European Medicines Agency

”.

#### **Amendments to the Health Protection (Coronavirus, International Travel, Pre-Departure Testing and Operator Liability) (Wales) (Amendment) Regulations 2021**

4. The Health Protection (Coronavirus, International Travel, Pre-Departure Testing and Operator Liability) (Wales) (Amendment) Regulations 2021(1) are amended as follows.

(1) O.S. 2021/48 (Cy. 11), a ddiwygiwyd gan O.S. 2021/72 (Cy. 18), O.S. 2021/171 (Cy. 39), O.S. 2021/305 (Cy. 78), O.S. 2021/584 (Cy. 161), O.S. 2021/646 (Cy. 166) ac O.S. 2021/826 (Cy. 193).

(1) S.I. 2021/48 (W. 11), amended by S.I. 2021/72 (W. 18), S.I. 2021/171 (W. 39), S.I. 2021/305 (W. 78), S.I. 2021/584 (W. 161), S.I. 2021/646 (W. 166) and S.I. 2021/826 (W. 193).

## Diwygiad i reoliad 4

5. Yn rheoliad 4 (dehongli), yn y lle priodol, mewnosoder “ystyr “teithiwr Atodlen 3A” (“*Schedule 3A passenger*”) yw person sydd wedi bod mewn gwlad neu diriogaeth a restrir yn Atodlen 3A i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol ac nad yw'n berson y mae rheoliad 12E(2) a (3) o'r rheoliadau hynny yn gymwys iddo;”.

## Diwygiad i reoliad 5B

6. Yn rheoliad 5B(3) (gofyniad i sicrhau bod teithwyr yn meddu ar hysbysiad o drefniadau profi ar ôl cyrraedd) hepgorer y diffiniad o “teithiwr Atodlen 3A”.

## Rheoliadau newydd 5C a 5D

7. Ar ôl rheoliad 5B mewnosoder—

### “Gofyniad i wirio statws brechu

5C.—(1) Rhaid i weithredwr sicrhau bod teithiwr, ac eithrio teithiwr Atodlen 3A, (“P”)—

- (a) sydd ar wasanaeth teithwyr rhyngwladol; a
- (b) sydd wedi dangos, gan ddefnyddio cyfleuster y cyfeirir ato yn rheoliad 4(1) o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol (gofyniad i ddarparu gwybodaeth am deithiwr), bod P yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd o ran brechu yn erbyn COVID-19 ar gyfer llai o ofynion ynysu a phrofi,

yn meddu ar y dystiolaeth ofynnol pan fo P yn cyrraedd porthladd yng Nghymru.

(2) Ym mharagraff (1) ystyr “y dystiolaeth ofynnol” yw—

- (a) tystiolaeth o'r disgrifiad a geir yn rheoliad 2A(3)(c), (3)(ca), (4)(b), (4A)(b) a (d) neu (6)(a)(ii) o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol; neu
- (b) pan fo P yn bwriadu manteisio ar yr esemptiad yn rheoliad 2A(5) neu (6)(b) o'r rheoliadau hynny (mae P o dan 18 mlwydd a 3 mis oed), tystiolaeth o oedran P.

(3) Rhaid i weithredwr roi ar waith a chynnal prosesau a systemau i sicrhau y cydymffurfir â'r gofyniad ym mharagraff (1).

(4) Nid yw'r gofyniad hwn yn gymwys yn achos gweithredwr gwasanaeth teithwyr rhyngwladol sy'n cychwyn yn Ffrainc Fetropolitanaid.

## Amendment to regulation 4

5. In regulation 4 (interpretation), in the appropriate place insert, ““Schedule 3A passenger” (“*teithiwr Atodlen 3A*”) means a person who has been in a country or territory listed in Schedule 3A to the International Travel Regulations and who is not a person to whom regulation 12E(2) and (3) of those regulations applies;”.

## Amendment to regulation 5B

6. In regulation 5B(3) (requirement to ensure passengers possess notification of post arrival testing arrangements), omit the definition of “Schedule 3A passenger”.

## New regulations 5C and 5D

7. After regulation 5B insert—

### “Requirement to check vaccination status

5C.—(1) An operator must ensure that a passenger, other than a Schedule 3A passenger, (“P”)—

- (a) who is on an international passenger service; and
- (b) has, using a facility referred to in regulation 4(1) of the International Travel Regulations (requirement to provide passenger information), indicated that P meets the COVID-19 vaccination eligibility criteria for reduced isolation and testing requirements,

is in possession of the required evidence when P arrives in a port in Wales.

(2) In paragraph (1) “the required evidence” means—

- (a) evidence of the description in regulation 2A(3)(c), (3)(ca), (4)(b), (4A)(b) and (d) or (6)(a)(ii) of the International Travel Regulations; or
- (b) where P intends to take advantage of the exemption in regulation 2A(5) or (6)(b) of those regulations (P aged under 18 years and 3 months), evidence of P's age.

(3) An operator must implement and maintain processes and systems to ensure that the requirement in paragraph (1) is complied with.

(4) This regulation does not apply in the case of the operator of an international passenger service which commences in Metropolitan France.



## Gofyniad i wirio esemptiadau

**5D.**—(1) Pan fo teithiwr sy'n cyrraedd Cymru ar wasanaeth teithwyr rhyngwladol, gan ddefnyddio cyfleuster y cyfeirir ato yn rheoliad 4(1) o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol, yn dangos ei fod yn berson y cyfeirir ato mewn paragraff yn Atodlen 2 i'r rheoliadau hynny (esemptiadau), rhaid i weithredwr sicrhau bod y teithiwr yn meddu ar dystiolaeth ei fod yn berson o'r fath.

(2) Nid yw paragraff (1) yn gymwys mewn perthynas â pherson a ddisgrifir ym mharagraff 6(2)(d)(i) o Atodlen 2 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol (gweithiwr cludiant teithwyr ffyrdd), sy'n gyrru cerbyd nwyddau sydd wedi cael ei gludo neu a fydd yn cael ei gludo i Gymru ar wasanaeth teithwyr rhyngwladol”.

## Diwygiadau i reoliad 6

### 8. Yn rheoliad 6 (troseddau)—

- (a) ym mharagraff (1)—
  - (i) yn is-baragraff (b) hepgorer “neu”;
  - (ii) ar ôl is-baragraff (c) mewnosoder—
    - “(d) rheoliad 5C(1),
    - (e) rheoliad 5C(3), neu
    - (f) rheoliad 5D.”;

### (b) ar ôl paragraff (5) mewnosoder—

“(6) Mewn perthynas â throedd ym mharagraff (1)(d), mae'n amddiffyniad i'r gweithredwr ddangos bod y teithiwr perthnasol wedi cyflwyno dogfen sy'n honni ei bod yn dystiolaeth ofynnol na ellid bod wedi disgwyl yn rhesymol i'r gweithredwr, neu berson sy'n gweithredu ar ran y gweithredwr, wybod nad oedd yn dystiolaeth ofynnol.

(7) Mewn perthynas â throedd ym mharagraff (1)(e), mae'n amddiffyniad i'r gweithredwr ddangos nad oedd yn rhesymol ymarferol bod â'r prosesau a'r systemau yn eu lle ar yr adeg berthnasol.

(8) Mewn perthynas â throedd ym mharagraff (1)(f), mae'n amddiffyniad i weithredwr ddangos bod y teithiwr wedi cyflwyno dogfen sy'n honni ei bod yn dystiolaeth briodol na ellid bod wedi disgwyl yn rhesymol i'r gweithredwr, neu berson sy'n gweithredu ar ran y gweithredwr, wybod nad oedd yn dystiolaeth briodol.”

## Requirement to check exemptions

**5D.**—(1) Where, using a facility referred to in regulation 4(1) of the International Travel Regulations, a passenger who arrives in Wales on an international passenger service indicates that they are a person referred to in a paragraph of Schedule 2 to those Regulations (exemptions), an operator must ensure that the passenger possesses evidence that they are such a person.

(2) Paragraph (1) does not apply in relation to a person described in paragraph 6(2)(d)(i) of Schedule 2 to the International Travel Regulations (road haulage worker), who is the driver of a goods vehicle that has been or will be conveyed to Wales on an international passenger service.”

## Amendments to regulation 6

### 8. In regulation 6 (offences)—

- (a) in paragraph (1)—
  - (i) in sub-paragraph (b) omit “or”;
  - (ii) after sub-paragraph (c) insert—
    - “(d) regulation 5C(1),
    - (e) regulation 5C(3), or
    - (f) regulation 5D.”;

### (b) after paragraph (5) insert—

“(6) In relation to an offence in paragraph (1)(d), it is a defence for the operator to show that the relevant passenger presented a document purporting to be the required evidence which the operator, or a person acting on behalf of the operator, could not reasonably have been expected to know was not the required evidence.

(7) In relation to an offence in paragraph (1)(e), it is a defence for the operator to show that it was not reasonably practicable to have the processes and systems in place at the relevant time.

(8) In relation to an offence in paragraph (1)(f), it is a defence for an operator to show that the passenger presented a document purporting to be appropriate evidence which the operator, or a person acting on behalf of the operator, could not reasonably have been expected to know was not the appropriate evidence.”

**Diwygiad i reoliad 10**

9. Yn rheoliad 10 (adolygu), yn lle “5A a 5B” rhodder “5A, 5B, 5C a 5D”.

**Amendment to regulation 10**

9. In regulation 10 (review), for “5A and 5B”, substitute “5A, 5B, 5C and 5D”.

*Eluned Morgan*

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol,  
un o Weinidogion Cymru  
Am 1.38 p.m. ar 30 Gorffennaf 2021

Minister for Health and Social Services, one of the  
Welsh Ministers  
At 1.38 p.m. on 30 July 2021

---

©Hawlfrant y Goron 2021

---

© Crown copyright 2021

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Jeff James, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Jeff James, Controller of Her Majesty’s Stationery Office and Queen’s Printer of Acts of Parliament.



£6.90

<http://www.legislation.gov.uk/id/wsi/2021/915>

ISBN 978-0-348-39099-5



9 780348 390995